


Yr her:

Yn ystod y cyfnod anodd yma, mae'n bwysig i feddwl am beth sydd yn eich gwneud yn hapus/drist ac i greu atgofion er mwyn adlewyrchu a thrafod mewn blynyddoedd i ddod. Cofiwch i fod yn bositif ac gwneud eich gorau glas - byddwn yn rhan o hanes yn y dyfodol!



Pwyntiau trafod i rieni:

- Beth ydych wedi mwynhau yn ystod y cyfnod yma?
- Pwy ydych wedi treulio'r cyfnod yma gyda?
- Sut ydych wedi teimlo yn ystod y cyfnod?
- Beth yw eich uchafbwyntiau?
- Beth ydych wedi gweld eisiau fwyaf?
- Oes rhywbeth doniol wedi digwydd i wneud chi chwerthin yn ddi-stop?
- Ydych wedi gwneud rhywbeth newydd yn ystod y cyfnod yma?



Cynllun pythefnos: Capsiwl Atgofion (Meithrin & Derbyn)

Rhaid gwneud...

- Adnabod llythrennau wyddor
- Ymarfer ffurfio llythrennau'r wyddor
- Ymarfer ffurfio enw
- Darllen yn reolaidd- darllen a gwrando ar storïau.
- Ymarfer canu caneuon / hwiangerddi

- Ymarfer adnabod rhifau
- Ymarfer ffurfio rhifau
- Adrodd rhifau yn eu trefn - ymlaen ac yn ôl
- Adio a thynnu ymarferol

- Joe Wicks - sesiwn fyw ar 'YouTube' am 9:00yb
- Cofiwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')
- Cosmic Kids Yoga - sesiwn ar 'YouTube'
- Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo.
- Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb.

Dylech wneud...



Llythrennedd



Rhifedd



Thema



Ewch ati i greu llyfryn 'Dyma Fi'. Cofiwch i gynnwys ffeithiau am eich hun e.e. enw, oed, lliw gwallt, lliw llygaid, hoff liw, hoff fwyd, hoff degan, hoff chwaraeon, hoff anifail, eich hoff a chas bethau.



Allwch chi fod yn dditectif - gofynnwch yn gwrtais aelodau eich teulu a ffrindiau 'Beth yw eich oed?' Trefnwch oed yr aelodau o'r ifancaf i'r hynaf.



Ewch ati i greu ac addurno capsawl atgofion (bocs). Yn y bocs, cofiwch lenwi'r bocs gyda'r pethau oedd yn bwysig i chi yn ystod y cyfnod yma e.e. lluniau, hoff rysait, hoff degan, cerrig wedi peintio, darn o waith o'r ysgol, llythyr oddi wrth Mr Davies ayyb.



Pwy sy'n byw yn eich tŷ chi? Ewch ati i dynnu llun/peintio llun o'ch teulu. Beth am ysgrifennu enwau pawb o dan pob llun?



Beth am beintio/lliwio llun o'ch cartref? Sawl ffenest sydd yna? Sawl drws sydd yna? Oes siapiau yn y tŷ? Allwch chi enwi'r siapiau yma e.e. sgwâr, cylch, petryal ayyb?



Ydych chi'n hoffi tynnu hun-lun (selfie) ar ffôn? Tynnwch hun-lun gydag aelodau'r teulu bob dydd am wythnos (cofiwch ofyn am ganiatad). Yna, gyda rhiant ewch ati i greu pic-collage o'r hun-luniau yma i gyd.
#wythnosyncyfnodclo Bydd eich athrawon yn dwli gweld y lluniau yma ar Trydar @ParcyTywyn/Hwb neu ebost!



Beth am greu siart o bethau rydych yn hoffi a ddim yn hoffi e.e. bwyd, chwaraeon, tegau, ffilmiau ayyb? Trafodwch gyda'r teulu.



Ewch ati i wneud amlinelliad/llun o aelodau'r teulu. Allwch chi eu trefnu o'r talaf i'r byrraf yn ôl maint?



Ewch ati i brintio'ch dwylo a thraed â phaent. Neu gallwch greu amlinelliad o'ch dwylo a lliwio i mewn. Beth am dorri'r amlinelliad allan gyda chymorth oedolyn? Beth am roi eich print yn y capsawl atgofion (bocs)?

Gallaf wneud...

Heriau LEGO	Minecraft	Dawnsio gyda Oti Mabuse
Llyfrau sain David Walliams	Cymuned y Sgarlets- Sgiliau Mathemateg	PBSkids.org - Gemau Darllen i blant
Newsround - darllen y newyddio diweddaraf	Carol Vorderman – 'My Maths School'	BBC Bitesize
ACTIV-I-TI – ar lein o 1:00yp	Cip ar Fathemateg	Hour of Code
Science experiment	SGILIAU – gemau i'w chwarae adref/clwb ysgol ar Facebook	Gwefan TopMarks Mathemateg
Science Investigations - STEM website stemsational.com	Celf Helen Elliot - Pob dydd mercher a Gwener am 3:00yp	Gwefan MathsFrame Mathemateg
Adnoddau twinkl-Mynychwch y wefan am ddim www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd UKTWINKLHELPS	Orielodl - fideo cam wrth gam	mathsalamanders.com
Zumba Kids	Criw Celf, Huw Aaron - pob dydd am 3y.p	Gwersi canu gyda Myleene Klass am 10:00 yb
	Llifo'n Llawen - Yoga	Coginio gyda Jamie Oliver am 12:00 yp
	Just Dance - 'Youtube'	Traed Bach Sionc (Busy Feet) - Youtube